Cenn@d

MEHEFIN 28 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 122

# Croeso i Gymanfa Gyffredinol EBC yng Nghaerfyrddin

Beth sy'n ein gwneud ni yn 'ni'? Beth sy'n mynnu ein bod yn goroesi? Ers deunaw mis bellach mae gweithwyr Gweinidogaethau'r Eglwys yn ymgynnull dros Zoom i weddïo, i ddarllen ac astudio'r Beibl, ac i rannu profiadau llesol, cadarnhaol gyda'n gilydd am chwarter awr ar bedwar bore yr wythnos. Yn un o'r cyfarfodydd yma yr wythnos o'r blaen, gofynnwyd y cwestiwn, 'Pwy ydan ni'n feddwl ydan ni?' Mae Pedr yn ei lythyr cyntaf yn dweud wrthym mai 'meini bywiol' ydyn ni, 'yn cael eich adeiladu yn dŷ ysbrydol, i fod yn offeiriadaeth sanctaidd'. Yn ystadegol fel Eglwys ac ynghanol helyntion cymdeithas a byd, ac wrth geisio byw ag euogrwydd dirywiad y Corff, rydyn ni'n aml iawn yn gallu anghofio mai Iesu ei hun yw'r gonglfaen, 'Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwn a ddaeth yn faen y gongl'.

Deng mis ers Cymanfa Gyffredinol Caerdydd 2022, rydyn ni'n diolch i'r Arglwydd am ein dal ni fel cerrig bywiol gyda'n gilydd hyd yma. Mae gennym lawer i fod yn ddiolchgar amdano ac mae'n dda gen i eich gwahodd i ddod ynghyd atom – yn y cnawd neu'n rhithiol – i'n Cymanfa eleni, am y cyfan neu i'r amrywiaeth o gyfarfodydd cyhoeddus sydd wedi eu trefnu i'n calonogi. Byddwn dan lywyddiaeth Evan Morgan am y rhan gyntaf cyn trosglwyddo i'n llywydd newydd, Aneurin Owen. Bydd cyfle i ddiolch i Evan am ei lywyddiaeth ofalus y ddwy flynedd ddiwethaf yma yn y cyfarfod i drosglwyddo'r llywyddiaeth nos Fawrth.

Eleni, rydym yn dathlu 200 mlwyddiant llunio ein Cyffes Ffydd ein hunain yn 1823, ac edrychwn ymlaen yn ystod y Gymanfa hon at glywed Darlith Hanes Philip Eveson ar effaith a dylanwad y gyffes ar yr hyn ydym fel Eglwys.

Yn ystod y misoedd ers y Gymanfa ddiwethaf, fe gyfarfu'r grŵp Polisi a Strategaeth ar sawl achlysur yn rhithiol ac unwaith yn hybrid. Bwriad y grŵp hwn yw llunio polisïau a gweithdrefnau ar ran y Bwrdd hwn, sy'n ymwneud â gweinidogaeth, cenhadaeth, adnoddau ariannol ac eiddo, a llunio strategaeth o ran ein defnydd o'n holl adnoddau.

Edrychodd y grŵp ar chwe maes penodol eleni, sef: Cyfathrebu; Ein perthynas ag Eglwys Bresbyteraidd India; Arloesi; Dyfodol ein Gwaith Plant ac Ieuenctid; Adeiladau; ac Aelodaeth. Cawn weld peth o ffrwyth llafur y grwpiau trafod hyn yn ein trafodaethau.

Yn rhinwedd y berthynas hardd sy'n bodoli rhyngom ac Eglwys Bresbyteraidd India, rydym yn croesawu'r Parch. Robert Cunville o Shillong, Meghalaya, atom i annerch yn ein gwasanaeth nos Lun. Diolchwn am ei barodrwydd i ddod atom ac am y diddordeb byw sydd ganddo yn ein lles ysbrydol. Mae'n nodweddiadol o ofal brawdol holl eglwysi synodau Gogledd-ddwyrain India drosom ac a ddylai fod gennym ninnau hefyd wrth inni gofio am lawer ohonynt ynghanol tensiynau o bob tu.



Cefais lawer o gyfleoedd i gydweithio a dod i adnabod arweinwyr enwadau eraill yng Nghymru yn ystod y flwyddyn gyntaf hon. Mae Undeb Annibynwyr Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru a ninnau yn cydweithio mewn sawl cylch yn barod, gyda gwaith Cyngor yr Ysgolion Sul, Y Panel Diogelu Cydenwadol, a gwaith Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Daw eraill i ymuno â ni o amgylch bwrdd pwyllgor cenedlaethol Cymorth Cristnogol a chorff llywodraethol Cytûn. Cefais hefyd sawl cyfarfod buddiol gydag Archesgob yr Eglwys yng Nghymru, Andrew John, wrth inni geisio dirnad gyda'n gilydd gyfeiriad gweinidogaeth a chenhadaeth i'r dyfodol. Edrychwn ymlaen yn y Gymanfa at gael croesawu'r cynrychiolwyr yma o enwadau eraill Cymru atom a hefyd gynrychiolwyr o Eglwysi Presbyteraidd yr Alban, Iwerddon ac India yn ehangach.

Mae lles gweinidogion yn bwysig ac yn allweddol inni fel Cyfundeb. Gan fod yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd wedi bod arnynt a'r angen am gymdeithas a chefnogaeth yn y cyfnod heriol hwn, yn ogystal â threfnu ymweliadau, rydym yn eu gwahodd i gyd i'r Gymanfa eleni ac yn trefnu encil ar eu cyfer yn yr hydref.

Edrychwn ymlaen eleni at gael byrddau arddangos neu farchnad arddangos adnoddau gan wahanol fudiadau megis Cymorth Cristnogol, Cyngor yr Ysgolion Sul a Chymdeithas y Beibl. Fe fydd rhai o'n gweithwyr ninnau ar gael yn y gofod hwn yn ystod amser paned i chi gael eu holi hefyd.

Gan atgoffa ein hunain eto o'r hyn ydyn ni efo'n gilydd yng ngolwg yr Arglwydd: 'yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw ei hun, i hysbysu gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch galwodd chwi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef' (1 Pedr 2). Rydyn ni'n feini bywiol er Ei fwyn, wedi ein nerthu a'n dwyn i fywyd gan ei Ysbryd Glân, yr un fu'n symud yn ein plith yn nerthol ar amryw gyfnodau ac sy'n barod i anadlu Ei fywyd ynom eto.

*Nan Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol EBC*

Agor y Llyfr ar ei newydd wedd
Tudalen 4

Gorthrymder yn y byd a goruchfiaeth Crist
Tudalen 5

Ffydd a Diwylliant
Tudalen 7

# EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

## CYFARFODYDD CYHOEDDUS / RHITHIOL

### Y GYMANFA GYFFREDINOL

**10-12 Gorffennaf, 2023**
**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin (Ystafell Cothi)**

**Prynhawn Llun, 10 Gorffennaf**
**2:00pm**

**GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD**
**I Bregethu: Parchg. Anna Jane Evans, BA, BD, Caernarfon**

---

**Nos Lun, 10 Gorffennaf**
**7:00pm**

**NEGES:**
**Siaradwr Gwadd: Y Parchg. Ddr Robert Cunville**
**Eglwys Bresbyteraidd India**
*'Cyflawni Ei Gomisiwn'*
'*Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd*' (Mathew 28:19)

---

**Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf**
**11.45am**

**Y DDARLITH DAVIES**
**Darlithydd: Parchg. Huw Ll Powell-Davies, BA, BD, Yr Wyddgrug**

**Testun**:
*'Argraff o genhadaeth: Golygon ar y Genhadaeth Gymreig yn yr India'*

---

**Nos Fawrth, 11 Gorffennaf**
**7:30pm**

**ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD**
**Y Parchg. Evan Morgan, BD, Caerdydd**

**TROSGLWYDDO'R LLYWYDDIAETH**
**Y Parchg. O. Aneurin Owen, BD, DipACC, Llansannan**

---

**Dydd Mercher, 12 Gorffennaf**
**11:45am**

**DARLITH Y GYMDEITHAS HANES**
**Darlithydd: Parchg Philip H Eveson, BA (Wales), MA (Cantab), MTh (London), Wrecsam**

**Testun**:
*'The 1823 Confession of Faith – a forgotten classic'*

---

**YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN DDWYIEITHOG AC YN RHITHIOL HEBLAW AM Y NEGES NOS LUN A'R DDARLITH HANES A DRADDODIR YN SAESNEG**
**Cyfeirnod: 864 0899 7467 Passcode: 109600**

# Pennaeth dros dro Cymorth Cristnogol Cymru'n paratoi ar gyfer her seiclo 200 milltir i godi ymwybyddiaeth o anghyfiawnder hinsawdd



Wrth i Gymru ddathlu Great Big Green Week 2023 (10–18 Mehefin), cyhoeddodd y Parch Andrew Sully ei fod ef, ynghyd â thri chyfaill, am fentro ar hyd Lôn Las Cymru er budd prosiectau sy'n mynd i'r afael â materion fel anghyfiawnder hinsawdd.

Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda phartneriaid lleol mewn rhai o'r cymunedau tlotaf yn y byd, lle mae pobl sydd heb wneud fawr ddim i gyfrannu tuag at newid hinsawdd yn talu'r pris mwyaf.

Mae stormydd difrifol a sychder dwys yn dinistrio cartrefi, yn difetha cnydau a da byw, gan olygu bod miliynau'n ei chael hi'n anodd goroesi.

Mae Andrew yn feiciwr brwd ac fe fydd yn seiclo o Gaergybi i Gaerdydd, rhwng 1 a 4 Gorffennaf, gyda'i gyfeillion John ac Ann Musgrave a Rhun ap Robert.

Dywedodd y gŵr 55 mlwydd oed, sy'n byw yng Nghaerdydd gyda'i wraig, Mary, sy'n Esgob Llandaf: "Rwy'n teimlo'n gryf ynghylch anghyfiawnder hinsawdd a hefyd yn awyddus i weld mwy o bobl yn mynd allan i fwynhau natur trwy gerdded neu seiclo.

"Fe deimlais i fod yr her hon yn ffordd dda o godi arian ac ymwybyddiaeth o bob math o brosiectau cynaliadwy."

Mae Andrew'n lansio'r digwyddiad codi arian gyda dau wasanaeth cymun – yn Llangollen a Llandudno ar 29 a 30 Mehefin – i gyd-fynd â dathlu 30 mlynedd ers ei ordeinio'n ficer.

Bydd y pedwar beiciwr wedyn yn gadael ddydd Sadwrn, 1 Gorffennaf, gan oedi mewn bore coffi ym Mangor, cyn anelu am Borthmadog a Phortmeirion.

Bydd y daith wedyn yn mynd tua Harlech, y Bermo, Aberdyfi, a Machynlleth. Bydd y criw'n aros dros nos yn Llanbryn-mair ac yna'n seiclo 'mlaen am Lanidloes, Llanfair-ym-Muallt ac Aberhonddu, yn dilyn Taith Taf i Ferthyr Tudful a Phontypridd, cyn diweddu'r daith gyda derbyniad yn Llys Esgob, cartref Andrew yn Llandaf.

Yno, bydd yr Esgob Mary a gwahoddedigion yn croesawu beicwyr Lôn Las Cymru adref ac yn cymryd y cyfle hefyd i ddiolch i wirfoddolwyr Cymorth Cristnogol am eu hymdrechion yn ystod y flwyddyn.

Mae Andrew yn feiciwr profiadol, ac wedi seiclo i drafodaethau hinsawdd COP15 yn København yn 2009, a hefyd o Lundain i Baris, Whitehaven i Whitby a Land's End i John O'Groats.

Ychwanegodd: "Y flwyddyn 2006 oedd y tro cyntaf imi seiclo o ddifrif ac roedd hynny gyda Chymorth Cristnogol. Fel mae'n digwydd, fe dorrais i bont fy ysgwydd ar y diwrnod olaf wrth gwympo oddi ar fy meic.

"Rwy'n gobeithio yr aiff y daith hon yn esmwyth ond mae rhai rhannau heriol iddi. Dwi wedi bod yn ymarfer bob wythnos, felly'n teimlo'n barod ac yn edrych ymlaen. Y gobaith ydy cwblhau rhyw 50–60 milltir y dydd, ac fe fydd hi'n gyffrous seiclo ar bob math o dir, gan gynnwys traciau'r arfordir, llwybrau camlesi a mynyddoedd.

"Bydd llawer o'r daith yn dilyn llwybrau seiclo Sustrans, sydd wedi'u cysgodi o'r priffyrdd. Dydy rhywun ddim yn sylweddoli faint o waith sydd wedi'i wneud ar y llwybrau hyn i annog pobl i fynd allan ar eu beics.

"Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at yr her, gan obeithio y daw llawer o bobl allan i ddangos eu cefnogaeth."

I wybod mwy ac i gyfrannu at y dudalen Justgiving, cliciwch ar: Andrew Sully is fundraising for Christian Aid (justgiving.com).

The Methodist Church
Yr Eglwys Fethodistaidd

## Swyddog Dysgu a Datblygu Cenedlaethol – Cymru Wales

**(£28,972 - £35,000 y flwyddyn)**

Gweithio o gartref 35 awr yr wythnos

Rydym yn gyffrous eich bod yn ystyried ymuno â thîm gofalgar a brwdfrydig sy'n gwerthfawrogi lles ac sy'n mwynhau cynllun pensiwn hael, yn ogystal, rydym yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith wedi'i ehangu gan wyliau blynyddol hael (gyda 3 diwrnod ychwanegol dros y Nadolig/ Blwyddyn Newydd), oriau blynyddol, gwyliau hyblyg a gwasanaeth cefnogol Cynghorydd Lles.

Mae tîm y Rhwydwaith Dysgu yn cwmpasu ystod eang o feysydd dysgu a datblygu ym mywyd yr eglwys. Felly, os ydych yn frwd dros helpu hyrwyddo cenhadaeth Eglwys Fethodistaidd Prydain Fawr, yna hoffem glywed gennych. Gyda hanes profedig o baratoi a chyflwyno rhaglenni dysgu a datblygu seiliedig ar ffydd, byddwch yn rhan o rwydwaith cryf o 38 o weithwyr dysgu a datblygu proffesiynol.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd fyw yn Ne Cymru a chefnogi gwaith yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru trwy ei Synod dwyieithog sydd newydd ei sefydlu ac yn cynnwys Eglwysi Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â'r eglwys ehangach ar draws y Cyfundeb.

Mae'r meysydd gwaith yn cynnwys:

- gweithio gyda chydweithwyr i gynllunio, rhannu, datblygu ac adolygu rhaglenni dysgu a datblygu;
- hwyluso sgyrsiau effeithiol a thrawsnewidiol gydag unigolion a grwpiau;
- gweithio ar y cyd a chyfrannu at fentrau dysgu a datblygu cyfundebol, gan rannu doniau a phrofiadau unigol ar draws timau a grwpiau eraill;
- mae teithio rheolaidd, gwaith penwythnos a pheth gwaith gyda'r nos yn hanfodol i'r rôl.

Mae sgiliau allweddol yn cynnwys:

- sgiliau cyfathrebu da (gan gynnwys cyfryngau digidol), cynllunio, trefnu, meithrin perthynas ac arwain.
- Sgiliau Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu.

Fel sefydliad cynhwysol, rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig eraill (BAME).

Ar gyfer gweinidogion mewn Cyfundeb Llawn mae'r telerau gwasanaeth safonol yn berthnasol.

Bydd y penodiad hwn yn amodol ar Ddatgeliad (Manwl) boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Sylwch ein bod yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar. Felly, os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich cais atom cyn gynted â phosibl.

Mae rhagor o fanylion am y rôl ar gael yn Learning & Development Officer (Cymru Wales) (current-vacancies.com)

**Dyddiad cau: Dydd Llun 17 Gorffennaf 2023**
**Cyfweliadau: Dydd Llun 31 Gorffennaf 2023**

# Agor y Llyfr ar ei newydd wedd





Dros y degawd a aeth heibio mae miloedd o blant Cymru wedi clywed storïau o'r Beibl yn cael eu cyflwyno ger eu bron mewn ysgolion cynradd. Datblygwyd Agor y Llyfr yn Gymraeg o adnodd Saesneg llwyddiannus yn dwyn yr enw Open the Book. Lansiwyd Open the Book yn wreiddiol fel ffordd o rannu hanesion o'r Beibl mewn ysgolion cynradd, a hynny gan griw o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi. Criw o weithwyr plant mewn esgobaeth yn ne Lloegr a ddatblygodd y cynllun yn wreiddiol 'nôl yn y nawdegau, ac fe wnaethon nhw fabwysiadu cyfrol o straeon Beiblaidd wedi eu paratoi gan Bob Hartman, ac a gyhoeddwyd fel cyfrol hardd gan gwmni cyhoeddi Lion Publishing, sef *The Lion Storyteller Bible*. Aeth y criw o wirfoddolwyr ati wedyn i ysgrifennu cyflwyniadau byr i bob un o'r 60 stori yn y gyfrol, ynghyd â gweddi i gloi'r sesiwn. Yn ychwanegol at hyn, paratowyd nodiadau manwl ar sut i gyflwyno'r hanesion mewn ffordd greadigol a hwyliog.




Dyma ddechrau ar gynllun a ddatblygodd i fod yn adnodd hynod effeithiol, ac o fewn degawd gwelodd Cymdeithas y Beibl ei werth, gan gymryd perchnogaeth ohono. Yng Nghymru lansiwyd y cynllun yn Gymraeg gan Gyhoeddiadau'r Gair yn 2010, gyda Cynthia Saunders Davies yn mynd ati i baratoi'r gyfrol liwgar *Beibl Newydd y Storïwr*. Erbyn hyn, mae Cymdeithas y Beibl hefyd yn gweinyddu'r cynllun yng Nghymru.

Yn dilyn cyfnod y clo daeth yn amlwg fod glynu at gyfrol wedi ei chyhoeddi gan gwmni arall yn cyfyngu ar y defnydd posib, yn arbennig o ran yr hawl i greu ffilmiau a sgriptiau i'w rhannu ar y we. Erbyn hyn, SPCK oedd yn berchen ar gwmni Lion, ac roedd goblygiadau rheolau hawlfraint yn creu problemau i Agor y Llyfr. Felly, penderfynwyd mynd ati i greu cyfrol hollol newydd o 90 o straeon Beiblaidd. Unwaith eto, gofynnwyd i Bob Hartman baratoi'r storïau, gyda Siân Roberts a Delyth Wyn yn gofalu am yr addasiadau Cymraeg.

Bydd y cynllun newydd yn cael ei lansio ar 5 Gorffennaf ym Maglan, ger Port Talbot, lle bydd Bob Hartman ei hun yn bresennol. Mae croeso cynnes i bawb i ymuno yn y cyfarfod, ac i glywed sut fydd y cynllun newydd yn gweithio. Mewn cyfnod lle nad yw'r rhan fwyaf o blant Cymru yn clywed straeon Beiblaidd yn gyson, dyma gynllun gwych i gyrraedd plant mewn ysgolion ledled Cymru. Dewch i glywed mwy ac i gael eich hysbrydoli gan Bob a thîm Agor y Llyfr. Y gobaith yw sefydlu mwy o dimau Agor y Llyfr o gwmpas y wlad yn fuan.

*Aled Davies*

# Gorthrymder yn y byd a goruchfiaeth Crist

Efallai eich bod wedi sylwi ar eitem drist o newyddion dydd Sadwrn, 17 Mehefin, yn cyfeirio at ymosodiad mileinig y noson flaenorol ar ysgol yn Uganda gan grŵp o'r enw ADF (Allied Democratic Forces) sydd wedi dangos ymlyniad wrth IS.

O gael mwy o wybodaeth, trwy fudiadau Cristnogol megis Open Doors a Barnabas Fund, roedd y mwyafrif llethol o'r 41 a laddwyd yn Gristnogion a'r mwyafrif hefyd yn eu harddegau. Roedd cymydog i'r ysgol wedi clywed y bobl ifanc yn canu caneuon Cristnogol cyn i'r ymosodiad ddigwydd.

Mae ysgol Mpondwe Lhubiriha yn ardal Kasese, gorllewin Uganda, yn ymyl y ffîn â Gweriniaeth y Congo. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion a laddwyd yn fechgyn. Wrth i mi ysgrifennu, mae rhai yn yr ysbyty ag anafiadau difrifol, ac fe gipiwyd eraill a'u gorfodi i gario'r ysbail roedd y terfysgwyr am ei dwyn. Roedd yr ymosodiad wedi para 90 munud ac roedd yr ymosodwyr yn defnyddio *machetes* a thân.

Mae gan Open Doors bartneriaid yn yr ardal sydd wedi ymweld â rhai teuluoedd yn eu galar, ond dy'n nhw ddim wedi cael caniatâd i fynd i'r ysbyty eto.

Ffurfiwyd yr ADF yn 1995 i ymladd yn erbyn llywodraeth Ugandaidd Yoweri Museveni. Maen nhw'n weithredol gan fwyaf yn nhalaith Gogledd Kivu (Congo) erbyn hyn. Cyhoeddodd y mudiad ei deyrngarwch i'r IS yn 2019. Eu harfer yw ymosod ar gymunedau, â'r mwyafrif o'u plith yn Gristnogion. Ers dechrau 2023 maen nhw wedi bod yn ymosod yn ffyrnig ar bentrefi, yn lladd pobl gyffredin, yn herwgipio eraill, yn anafu llawer, ac o ganlyniad mae nifer fawr o bobl wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u pentref, weithiau fwy nag unwaith.

### Gorthrymder y byd

Rhybuddiodd yr Arglwydd Iesu ei ddisgyblion y byddent yn profi gorthrymderau yn y byd. Gall 'y byd' olygu'r blaned hon, ond hefyd deyrnas lle mae pobl dan ddylanwad Satan, 'tywysog y byd hwn' a 'duw y byd hwn', sy'n dallu pobl rhag credu yn Nuw trwy Iesu Grist a gweld goleuni gogoniant ei Efengyl. Dywed Iesu nad yw'n gweddïo fel Eiriolwr dros y byd, ond dros ei bobl, sy'n cael eu galw o'r byd, a'u trosglwyddo o'r byd a gafael y tywyllwch i deyrnas ei annwyl Fab. Caiff Cristnogion eu rhybuddio gan yr apostol Ioan i beidio â charu'r byd na'r pethau sydd yn y byd, sef trachwant y cnawd a'r llygaid a balchder mewn meddiannau.

Felly, mae'r 'byd' yn yr ystyr yma yn wrthwynebus ac yn elyniaethus i Dduw, i'w Fab annwyl, ac i'w bobl. Cawn ein galw i fod yn y byd, ond nid o'r byd. Cawn ein galw i fod yn halen ac yn oleuni ynddo.



Llun: Janet K. Museveni

### Goruchafiaeth Crist

Nodyn buddugoliaethus yr addewid hyfryd yma yw bod ein Harglwydd Iesu wedi gorchfygu'r byd. Yn ei fywyd, ni chafodd ei ddylanwadu na'i goncro gan agwedd y byd. Arhosodd yn ffyddlon ac ufudd i'w Dad nefol, gan wrthod temtasiynau Satan a ffyrdd hunanol, annuwiol y byd o weithredu. Ei nod cyson oedd gogoneddu Duw a chyhoeddi ei Air a'i deyrnas.

Yna, fe goncrodd 'y byd' ar y groes drwy beidio â dial ar ei ormeswyr a thrwy gymryd cosb pechod ei bobl, er mwyn eu rhyddhau o afael Satan a phechod. Nawr mae addewid pendant o faddeuant, glanhad a chalon newydd i bwy bynnag ddaw at Iesu mewn edifeirwch a ffydd.

Bu'n fuddugoliaethus ar 'y byd' yn ei atgyfodiad a'i ddyrchafiad hefyd. Nawr mae'n frenin pawb a phopeth. Ef sy'n llywio cwrs hanes, ac ni all dim ddiwgydd, hyd yn oed ymosodiad Uganda, heb ei ganiatâd. Ni all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw sydd yng Nghrist Iesu, ein Harglwydd. Mae'n llywio popeth er ei ogoniant ac er dyfodiad ei deyrnas fendigedig.

**Gawn ni weddïo dros frodyr a chwiorydd yn Uganda** sydd wedi profi gorthrymder creulon.
Gweddïwn y byddant yn gweld drwy ffydd Iesu Grist, eu Bugail a'u Brenin buddugoliaethus ac yn profi ei bresenoldeb gyda nhw yn rhoi tangnefedd uwchlaw pob deall a llawenydd dwfn iawn.

Gweddïwn dros fudiadau fel Open Doors sy'n cynnig cymorth a chysur yn yr Efengyl a help i ddelio â'r fath drawma.

Gweddïwn dros y rhai sydd wedi eu hanafu, y cânt wellhad drwy drugaredd yr Arglwydd.

Gweddïwn dros y rhai sydd wedi eu cipio, y cânt eu darganfod a'u dychwelyd at eu teuluoedd.

Gweddïwn dros aelodau'r ADF, y byddan nhw'n dod wyneb yn wyneb â'r Arglwydd Iesu yn ei ogoniant fel Arglwydd a Brenin byw, fel a ddigwyddodd i Saul o Darsus, erlidiwr didrugaredd arall a gafodd drugaredd.


Gallwn hefyd gefnogi mudiadau fel Open Doors a Barnabas Fund (ac eraill) i fod o fendith arbennig i Gristnogion sy'n dioddef gorthrymder yn ein byd.

*John Treharne*

## Gair o Gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom yn ystod y dyddiau diwethaf am farwolaeth y Parchedig John Rice Rowlands, Llanfachraeth, ger Caergybi. Bu'n weinidog ffyddlon ar yr Ynys am flynyddoedd lawer, gan ofalu am eglwysi'r Gaerwen a Phencaerneddi ac yna eglwys Bethel, Caergybi, cyn symud ymlaen i fod yn Brifathro ar y Coleg Gwyn ym Mangor, sef coleg hyfforddi'r y Bedyddwyr. Bu'n aelod o bwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd a Gair y Dydd am flynyddoedd lawer a gwasanaethodd ar nifer o bwyllgorau'r Undeb yn ogystal. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i a ffrindiau lawer.

ADNABOD




Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 30 Tair gwers

### Darllen: Genesis 19:1–38

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 120)**

Wedi edrych ar hanes a chymeriad Lot yr wythnos diwethaf, rwyf am grynhoi'r hyn sy'n digwydd yn y bennod. Nid oes angen imi ailadrodd yr hanes am y digwyddiad gan ein bod i gyd wedi clywed am Sodom a Gomorra mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae awdur Genesis yn dweud am Sodom ym mhennod 13, 'Yr oedd gwŷr Sodom yn ddrygionus, yn pechu'n fawr yn erbyn yr ARGLWYDD' (13:13), er bod y gwastadedd hwn 'i gyd yn ddyfradwy, fel gardd yr ARGLWYDD' (13:10).

Er ein bod yn gofidio bod Lot yn dymuno byw yng nghanol 'y bobl ddrygionus' yma, eto nid yw'n rhyfeddod ei fod wedi dewis y lle hwn yn hytrach na'r bryniau a'r mynyddoedd, lle byddai angen gweithio'n galed i ennill bywoliaeth. Cofiwch, yn nhermau heddiw, efallai fod Lot yn fath o ddyn oedd yn credu y byddai byw yng nghanol y bobl yma'n medru gwneud gwahaniaeth, heb ei fod yn gorfod dweud dim, na sefyll yn gyhoeddus yn erbyn eu drygioni. Ond prin y byddwch yn cael yr argraff fod duwioldeb a chredu yn Iesu yn rhywbeth y gall pobl ei ddal oddi wrthych, fel annwyd, dim ond ichi eistedd yn ddigon agos atynt. Tra mae Iesu yn sôn am ei blant fel halen sy'n llosgi er mwyn puro, neu fel goleuni sy'n erlid ac yn dangos tywyllwch, mae'n debyg nad oedd Lot y naill neu'r llall. Pan mae'n ceisio dweud wrth ei feibion yng nghyfraith am ffoi oherwydd 'y mae'r ARGLWYDD ar fin dinistrio'r ddinas', mae'r peth mor ddieithr iddynt fel bod awdur Genesis yn dweud, 'Ond yng ngolwg ei feibion-yng-nghyfraith yr oedd Lot fel un yn cellwair', neu, yng nghyfieithiad Beibl.net, 'Ond roedden nhw yn meddwl mai tynnu coes oedd e.'

O ran dinistr y dinasoedd yma, ceir amryw byd o resymau dros union natur eu gwrthryfel. Yn Eseciel dywedir: 'Hyn oedd drygioni dy chwaer Sodom: yr oedd hi a'i merched yn falch, yn gorfwyta, ac mewn esmwythyd diofal; ond ni roesant gymorth i'r tlawd anghenus. Bu iddynt ymddyrchafu a gwneud ffieidd-dra o'm blaen; felly fe'u symudais ymaith, fel y gwelaist' (Eseciel 16:49–50). O ran y testun ei hun, rydym yn cael cip ar eu hannuwioldeb yn yr ymdrech sy'n cael ei gwneud gan 'ddynion Sodom, pawb o bob cwr o'r ddinas, yn hen ac ifanc' i dreisio'r ddau angel sy'n dod i rybuddio Lot i ddianc: 'Tyrd â hwy allan atom, inni gael cyfathrach â hwy' (19:4,5). Er bod yna rai ymdrechion wedi eu gwneud i awgrymu mai dymuno 'sgwrsio a dod i adnabod' y ddau angel yma yn unig yr oedd dynion Sodom, a bod honno'n ffordd gyfleus o geisio osgoi realiti eu bwriadau. Eto, mae'r testun yn ei gwneud yn amlwg mai bwriad y dyrfa oedd trais rhywiol torfol.

Bwriad Lot, oedd yn amlwg yn rhyw fath o arweinydd yn y ddinas, ac yntau'n cael ei ddisgrifio yn adnod 1 fel gŵr oedd 'yn eistedd ym mhorth Sodom', yw gwarchod yr ymwelwyr ddaeth i'w dŷ. Eto, pan mae'n ceisio cyflawni ei gyfrifoldeb fel lletywr, mae'n cael gwybod yn fuan iawn mai dyn dŵad yw: 'Saf yn ôl! Ai un a ddaeth yma i fyw dros dro sydd i ddatgan barn? Yn awr, gwnawn fwy o niwed i ti nag iddynt hwy' (9). Bellach mae ei fywyd ef a bywyd ei deulu mewn perygl, a rhaid wrth waredigaeth ryfeddol i'w hachub o'r sefyllfa.

Mae hanes y waredigaeth yn gyfuniad o drugaredd Duw ac arafwch Lot a'i deulu. Mae'r proffwyd Amos yn cyfeirio at yr un cyfuniad ym mywyd y bobl yn ddiweddarach yn hanes Israel: ' "yr oeddech fel pentewyn wedi ei gipio o'r tân; er hynny ni throesoch yn ôl ataf," medd yr ARGLWYDD' (Amos 4:11). Er bod realiti canlyniadau annuwioldeb y dinasoedd hyn yn cael ei osod allan yn eglur, eto, 'Yr oedd yntau'n oedi' a bu raid i'r angylion gydio 'yn ei law ac yn llaw ei wraig a'i ddwy ferch, a'u harwain a'u gosod y tu allan i'r ddinas' (19:16). Nid bod arafwch Lot yn syndod inni: rydym yn ddigon cyfarwydd â'r arafwch yma yn ein bywydau ein hunain.

Mae'r awdur at yr Hebreaid yn disgrifio Duw fel 'tân yn ysu', a'n cyfrifoldeb ninnau i 'wasanaethu Duw wrth ei fodd, â pharch ac ofn duwiol' (Hebreaid 12:28,29). Wrth 'geryddu'r trefi lle y gwnaed y rhan fwyaf o'i wyrthiau, am nad oeddent wedi edifarhau', fe ddywed Iesu, 'petai'r gwyrthiau a wnaed ynot ti wedi eu gwneud yn Sodom, buasai'n sefyll hyd heddiw. Ond rwy'n dweud wrthych y caiff tir Sodom lai i'w ddioddef yn Nydd y Farn na thi' (Mathew 11:20, 23–4). Yn dilyn iacháu'r dyn wrth bwll Bethesda, mae'r Iddewon yn troi ar Iesu, yn wir, yn dymuno'i lofruddio am ei fod 'yn galw Duw yn dad iddo ef ei hun'. Wrth y rhain, oedd 'yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy', fe ddywed Iesu, 'tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain; eto ni fynnwch ddod ataf fi i gael bywyd' (Ioan 5:18, 39–40).

I gloi'r astudiaeth hon, tri pheth sy'n sefyll allan i mi: trugaredd Duw at Lot a'i deulu; f'arafwch i, fel yntau, yn ymateb i'w drugaredd a'i ras; a'r perygl o beidio ag edifarhau a chefnu ar bechod. Wrth ystyried y trydydd, meddyliwch am eiriau Jwdas (1:7), brawd i Iesu: 'A chofiwch beth ddigwyddodd i Sodom a Gomorra a'r pentrefi o'u cwmpas! Roedd anfoesoldeb rhywiol yn rhemp, ac roedden nhw eisiau cyfathrach annaturiol gyda'r angylion! Maen nhw'n dioddef yn y tân sydd byth yn diffodd, ac mae eu cosb nhw yn rhybudd i bawb' (Mathew 13:55).

1. Yn Rhufeiniaid 10:14 fe gawn y geiriau: 'Ond sut y mae pobl i alw ar rywun nad ydynt wedi credu ynddo? Sut y maent i gredu yn rhywun nad ydynt wedi ei glywed? Sut y maent i glywed, heb fod rhywun yn pregethu?' I ba raddau y mae'n bosibl i gariad at Iesu 'gael ei ddal, heb ei ddysgu'?
2. Rhannwch brofiad o drugaredd Duw, yn benodol, pan oeddech yn gwybod yn dda nad oeddech yn haeddu'r fath drugaredd.
3. Rydym wedi canu llinellau Morgan Rhys droeon: 'Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân, / am achub anhydyn bentewyn o'r tân'. Ymhlith y geiriau sy'n gael eu defnyddio yn y geiriadur i esbonio 'anhydyn' ceir 'ystyfnig' a 'pengaled'. Sut wnaeth Duw ddelio â hyn yn eich profiad personol?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***

**Sul, 2 Gorffennaf am 7.30yh**

Mae Lisa Gwilym yn ymweld â Glyn Nest, Cartref y Bedyddwyr yn Nyffryn Teifi, i gwrdd â rhai o'r cymeriadau sy'n byw yno a'r staff sy'n gofalu amdanyn nhw. Hefyd yn taro i mewn fydd y Parchedig Irfon Roberts a'r cerddor Joy Cornock. Daw'r canu mawl o Gapel Pen-y-bont, Llandysul

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***

**Sul, 2 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Aberteifi

**Sul, 2 Gorffennaf, am 12yp**

Oedfa dan ofal Medi James, Aberystwyth

# Ffydd a Diwylliant

## Fuoch chi'n gwylio BGT? *Britain's Got Talent*? Y gyflafan honno o Union Jacks a'i gwobr – cael perfformio o flaen y Brenin?

Na, 'nes i ddim ei dilyn yn fanwl iawn, ond mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi ddigwydd taro ar ambell berfformiad rhyfeddol – rhywun yn gwneud hud a lledrith, rhywun arall yn llyncu cleddyf neu'n dringo tŵr o gadeiriau simsan.

Ond er cystal y rheiny, nid dyna a'm syfrdanodd i chwaith.

Gwelais dri pherfformiad a'm lloriodd i.

Ond efallai nad y perfformiadau, fel y cyfryw, a'm lloriodd i chwaith, ond y newid oedd yn yr unigolion rhwng y sgwrs agoriadol a dechrau eu perfformiad.

Dyna i chi hogyn ifanc o Dde Affrica oedd wedi colli ei goes i gancr ac yn cerdded ar y llwyfan ar faglau. Musa Motha oedd ei enw fo, roedd o'n hynod o nerfus a'i Saesneg yn ddigon simsan. A beth, meddech chi, oedd yr hogyn ifanc hwn yn mynd i'w wneud? Dawnsio! Dawnsio, ac yntau â dim ond un goes. Roedd y syniad yn ymddangos yn anghredadwy, ond roedd y realiti yn rhyfeddach. Roedd y trawsnewidiad oedd yn dod drosto yn syfrdanol. Yn betrus wrth sefyll yn llonydd, roedd o'n hedfan wrth




ddawnsio, ac eironi ei berfformiad oedd ei fod yn mynd â'n gwynt ni wrth gymryd arno ei fod yn disgyn fel rhan o'i sioe.

Gitarydd 11 oed oedd Harry Churchill. Wrth siarad, roedd o 'run mor swil, anesmwyth a hunanymwybodol ag unrhyw fachgen arall o'i oed. Ond pan gydiodd yn ei gitâr, roedd o'n newid i fod yn rhywun neu'n rhywbeth cwbl wahanol. Roedd ei hyder yn drydanol a'i ddawn yn pefrio drwyddo ac ohono. Nid yr un un oedd o.

Dawnswraig oedd Lillianna Clifton hefyd. Merch 13 oed ag acen Sgows gref. Digon cyffredin oedd ei sgwrs. Roedd yna res o blant 'ysgol ddrama' wedi bod cynt oedd wedi ymarfer eu gwên giwt a'u '*banter* byrfyfyr' lawn cymaint â'u sioe. Ond doedd hon ddim, a doeddwn i ddim yn meddwl mai nerfus oedd hi chwaith. Roedd hi i'w gweld yn berson tawel nad oedd geiriau mawr yn golygu rhyw lawer iddi. Ond doedd dim rhaid bod yn nerfus drosti. Unwaith y dechreuai'r gerddoriaeth, roedd hi'n greadigaeth wahanol. Roedd ei llygaid ar dân. Ei chorff yn egni byw. Roedd pob ystum yn emosiwn pur.

Cliciwch ar y dolenni i weld perfformiadau'r tri yma ar YouTube ac fe welwch chi eu dawn, heb os. Fe fydd y perfformiadau yno o'r bar cyntaf i'r olaf, ond dwi'n siŵr y cytunwch chi mai rhyfeddod y perfformiad ydy'r gweddnewidiad o'r plentyn cyffredin i'r perfformiwr rhyfeddol.

Wrth wylio, allwn i ddim peidio â meddwl peth mor rhyfeddol ydy meddu ar ddawn fel yna. Oes, mae gwaith caled iawn y tu ôl i'r cyfan ond mae yna ysbrydoliaeth yn ogystal. Ac o ble bynnag mae hwnnw'n dod, mae yna rywbeth yn ymylu ar y dwyfol yn y gweddnewidiad yna sy'n caniatáu i gyrff sy'n ymddangos y tu hwnt o gyffredin i gyfleu'r fath angerdd a chariad.

*Rocet Arwel Jones*

# Ordeinio yn y Gogledd-ddwyrain

O dan lywyddiaeth Marion Simkin, Soar, Nercwys, fe gynhaliwyd ein henaduriaeth y tro hwn yng Nghapel y Groes / Ebeneser, Wrecsam, ar 24 Mai. Roedd hi'n braf cael tynnu sylw at y ffaith fod chwe blaenor o'r Henaduriaeth wedi eu llongyfarch yn y Gymdeithasfa ym Mae Colwyn ar 25 Ebrill. Roedd pedwar yn bresennol yno, sef Idris Davies (70 mlynedd) a Bill Roberts (60 mlynedd) ar Zoom, a John Lyons (50 mlynedd) a Goronwy Wynne (40 mlynedd). Llongyfarchwyd hefyd Maureen Roberts a Will Williams (40 mlynedd).



Yn y llun fe welir (o'r chwith i'r dde) Marion Simkin, Rhiannon Liddell, Eric Greene, Elizabeth Jones a Menna Coleclough

Yn sgil yr adroddiad a wnaed gan Catrin Hampton o'r diwrnod ymgynghori yn y Bala ar waith plant ac ieuenctid o fewn y Cyfundeb, fe basiwyd ein bod yn mynegi ac yn parhau ein cefnogaeth ym mhob ffordd i'n Canolfan Gwaith Plant ac Ieuenctid yng Ngholeg y Bala. Rydym hefyd yn llawenhau yn ein tîm o weithwyr a gwirfoddolwyr yn lleol yn yr Henaduriaeth.

Rhoddwyd sylw i'r Rhos wrth inni dderbyn adroddiad o seiat ymweld ym Methel, Ponciau, a hefyd glywed yr hanes diweddaraf am hynt y swydd newydd, arloesol sydd i'w hariannu rhyngom a'r Cyfundeb yn yr ardal. Braf oedd clywed y trysorydd, Geraint Jones, yn adrodd ein bod yn disgwyl y byddwn wedi cyrraedd ein targed yn yr Henaduriaeth tuag at Apêl Hadau Gobaith erbyn y bydd pob cyfraniad wedi cyrraedd i mewn.

Robert Parry fu'n ymddiddan â'r ddwy oedd i'w hordeinio, sef Rhiannon Liddell o eglwys Heathfield Road, Lerpwl, ac Elizabeth Jones o eglwys Caersalem, y Fflint, cyn eu cymeradwyo i'r Henaduriaeth. Cawsant eu hordeinio yn eisteddiad y nos gydag Eric Greene, y Bala, cyn-Lywydd y Gymdeithasfa, yn bresennol i wneud y gwaith ac i annerch. Gweddïwyd drostynt a thros yr holl eglwysi gan Huw Powell-Davies.

Cyflwynwyd rhodd i'r ddwy oedd yn cael eu hordeinio, ynghyd â Menna Coleclough, a godwyd eto i wasanaethu fel blaenor yng Nghaersalem, y Fflint, sef copi o gasgliad gweddïau'r diweddar Barchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, *Amser i Dduw*, casgliad y mae llawer o ddefnydd arno yn ein plith. Bu coffáu hefyd gan Aled Lewis Evans yn oedfa'r hwyr am Menna Davies, un o flaenoriaid Capel y Groes, y mae ei cholled yn dal i'w theimlo yn fyw iawn yn ein plith.

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Yr Arglwydd sy'n darparu

**Emyn 55 'Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd yw ein Duw'**

**Darllen – Salm 13 neu ganu o'r *Salmau Cân Newydd* https://www.bible.com/cy/bible/1364/PSA.13.SCN**

### Myfyrdod

Adroddir mewn hen gyfrolau am ffyddlondeb yr Arglwydd i'n rhagflaenwyr. Atgof i gynifer ohonom yw oedfaon gwlithog lle roedd presenoldeb yr Arglwydd mor llethol, mor arswydus ac mor gynhyrfus – oedfaon mor adfywiol eu rhin. Nid dyma'r dystiolaeth a adroddir yn ein plith mwyach. Gerbron yr Arglwydd Dduw, gerbron y byd ac ymhlith ein gilydd, cyffeswn fel cynulleidfaoedd lleol fod llesgedd a thristwch ar gerdded drwy ein plith. Fel olion hen goredau ar lan y môr sydd bellach wedi eu bylchu, gadawyd ein capeli, fel olion llanw a llawnder dyddiau a fu.

A heddiw?

Heddiw, gofidiwn am dranc hyd yn oed y cyfundrefnau a etifeddwyd gennym a'u tystiolaeth mud i ddylanwad yr efengyl yn ein gwlad.

Heddiw, rydym yn dyheu am i'r Arglwydd ysgrifennu pennod newydd, a thrwy ei waith adnewyddol i adfywio cyhoeddiad y Gair drwy ei Ysbryd yn ein plith, i esgor ar ganeuon newydd o fawl ynom.

### Gweddi

Am ba hyd, Arglwydd, wnei di oedi cyn ein hateb? A ganiatei i wawd dy elynion, neu 'hun marwolaeth', neu dywyllu ynom bob gobaith roi taw ar dy fawl yn ein plith?

Goleua drachefn lygaid ein deall i adnabod dy aruthrol drugaredd, anfeidrol allu dy ras, a'th nerth tuag at dy eglwys.

Ateb ni, O ARGLWYDD Dduw.

Canwn fawl, dyrchafwn dy glod am iti osod yr Haleliwia yn ein henaid. Y mae dy gariad tuag atom yn Iesu Grist a thrwy ei goncwest ar Galfaria yn ddi-ben-draw, yn ddiatal, yn anorchfygol. Llanw'n calon ni â'th gariad a'n gwefusau â'th glod. Dduw ffyddlon, gwared dy bobl, Amen.

**Emyn 755 'Y cysur i gyd'**

**Darllen – Genesis 22:1–18 'Profi Abraham'**

Beth, tybed, a aeth drwy feddwl Abraham wrth iddo gychwyn ar ei daith y bore arbennig hwnnw?

Roedd aberthu plant yn rhan amlwg o grefyddau'r hen fyd. Wrth i Abraham ddysgu cerdded mewn ffydd gyda'r Arglwydd a'i galwodd i adael ei famwlad, i ymdeithio mewn gwlad o addewidion, byddai hanfod cymeriad y Duw a'i galwodd, yn ogystal â'i ofynion a'i ddisgwyliadau, wedi bod yn fyfyrdod cyson iddo. A fynnai Duw iddo aberthu ei fab i brofi ei ffydd? Ar ryw olwg fe ellid dadlau mai'r hyn a geir yn yr hanes yw bod gofynion yr Arglwydd yn cael eu profi gan Abraham!

Dysgodd Abraham drwy'r profiad hwn, a dysgodd Israel drwy hyn, nad oedd unrhyw le i aberthu plant. Nid oedd yna ddisgwyl na gofyn arno i ddilyn arferion defodol crefyddau a'i hamgylchynai er mwyn boddhau'r Arglwydd.

Beth fyddai Sara wedi ei ddweud pe byddai'n gwybod beth oedd ym meddwl Abraham pan adawodd gydag Isaac yn ei ymyl? Ym mha ffordd yr effeithiodd y profiad hwn ar Isaac? Er y gallem archwilio'r cwestiynau hyn (a mwy), nid dyma fydd canolbwynt ein diddordeb ni.

Digon am y tro fydd tanlinellu mai diddordeb cenadaethol (misiolegol) fydd i'r gyfres fer hon o fyfyrdodau wrth i ni gymryd camau breision drwy Genesis.

### Ffydd neu weithredoedd

Y mae grawn ŷd yn llawn o faeth. Ond ŵyr neb ohonom am eu rhinweddau unigol, na'u blas, heb iddynt yn y lle cyntaf gael eu malu a'u cymysgu â burum. Yna, caiff y toes ei ddyrnu a'i rolio, a'i osod mewn popty poeth. Fel hynny try grawn yn gynhaliaeth! Wrth i egin ffydd gael eu profi gan heriau bywyd, fe ddatblyga i fod yn rhywbeth hardd a bywiol.

### Egin ffydd ar waith

Gallai darlleniad arwynebol o'r cymal 'am i ti wneud hyn' (adn. 16), neu ddehongliad ohono oedd yn anghofio cyd-destun ehangach hanes Abraham, ein harwain i gredu mai ar sail ei 'weithred' yr enillodd Abraham gymeradwyaeth yr Arglwydd. Camddehongliad fyddai darlleniad o'r fath. Ffydd yn cael ei mynegi sydd yma, nid ffafr sy'n cael ei hennill!

### Ailddatgan

Beth a geir yn yr adnodau, fel y gwelwn, yw ailddatganiad o addewid a wnaed eisoes: 'Galwodd angel yr Arglwydd eilwaith o'r nef' (adn. 16).

O'r cychwyn cyntaf, dewis bwriadol yr Arglwydd oedd ethol Abraham (a'i ddisgynyddion), heb fod ynddo unrhyw rinwedd neu gyrhaeddiad ynddo'i hun, i fod yn ei dro yn fendith i'r byd. Yr Arglwydd ei hun a wahoddodd eilunaddolwr i adael ei grefydd, ei dduwiau, a disgwyliadau diwylliannol ei ddydd er mwyn dysgu rhodio gyda'r Arglwydd fel dieithryn mewn gwlad na châi ei meddiannu'n llawn.

### Addewid i'r byd

Pum gwaith yn yr alwad gyntaf cyfeiriodd yr Arglwydd at ei fwriad i 'fendithio'. Byddai'n bendithio Abraham er mwyn iddo fod yn fendith i eraill. Byddai'n bendithio ei fendithwyr, ac yn sicr byddai 'holl dylwythau'r ddaear' yn cael eu bendithio drwy Abraham (Genesis 12:1–3). Credodd Abraham yr addewidion a wnaed iddo gan yr Arglwydd. Dyma egin ei ffydd.

Mireiniwyd a chadarnhawyd yr un addewid a'r un amodau mewn datganiad diweddarach. Wedi cefnu ar Haran a'r gwerthoedd eilunaddolgar blaenorol, dyhead y Duw Hollalluog oedd i Abraham 'rodio ger fy mron a bydd berffaith'. Ynghlwm wrth yr alwad i ddod i berthynas yr oedd disgwyliad am gyfnewidiad moesol' (Genesis 15, 17). Byddai'r addewid a'r disgwyliad yn ymestyn drwy Abraham i'w ddisgynyddion.

Yn awr, daeth yr addewid drachefn. Byddai disgynyddion Abraham yn niferus; ac ar sail ufudd-dod Abraham byddai 'holl genhedloedd y ddaear' yn cael eu bendithio (22:18).

Nid oes galwad i'r unigol heb iddo fod ar yr un pryd yn alwad i fod yn fendith i'r rhelyw.

### Diamod amodol

Yn yr economi dwyfol nid oes bendith heb alwad, na galwad nad yw'n golygu 'gadael'. Ynghlwm wrth yr alwad down i berthynas â Duw, a mynegir y berthynas â Duw drwy ffydd ymarferol, weithredol, ynghyd â chyfnewidiad moesol cyfatebol.

Y mae galwad Duw yn rasol ac yn alwad ddiamodol. Yr un pryd, er mwyn i'r addewid gael ei gyflawni, mae'n galw am ufudd-dod llwyr i amodau'r cyfamod.

### Gwarant

Gwarant, sicrwydd a diogelwch terfynol cyfamod Duw yw ei fod yn dibynnu'n llwyr ar sgwrs ddirgel, fewnol, guddiedig yng nghalon y Drindod sanctaidd. ' "Tyngais i mi fy hun," medd yr ARGLWYDD' yw sail ac adeiladwaith pob perthynas, pob parhad a phob gobaith am gyflawniad yr addewidion dwyfol. Dyma'r cyfamod y cawn ein gwahodd i fyw ynddo, a thrwyddo, drwy Iesu Grist, had Abraham (Galatiaid 3:14, 16; 4:4–5).

### Gweddi

Diolchwn i ti am ras ein Harglwydd Iesu Grist, am gariad Duw, ac am gymdeithas barhaus dy Ysbryd Glân a'i ddylanwad grasol ynom. Amen.

**Emyn 113 'Duw Abraham, molwch ef'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru